

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A40 (GER
PONTSENNI, POWYS) (GWAHARDD
CERBYDAU, BEICWYR A CHERDDWYR DROS
DRO) 2022**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn arfaethedig er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A40, neu gerllaw iddi, ger Pontsenni yn Sir Powys.

Effaith y Gorchymyn fydd gwahardd dros dro bob cerbyd, beiciwr a cherddwr rhag mynd ar y darn o gefnffordd yr A40 sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r lôn ddiennw sy'n arwain at Grai i gyfeiriad y dwyrain hyd at ei chyffordd â'r ffordd fynediad sy'n arwain at Fferm Ynys-yr-Wyddfa.

Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r gorllewin o ben dwyreiniol y darn o'r ffordd sydd ar gau fydd mynd ar yr A40 tua'r dwyrain i Aberhonddu, ar yr A470 tua'r gogledd i Lanfair-ym-Muallt ac yna'r A483 tua'r gorllewin i ailymuno â'r A40 yn Llanymddyfri. I'r gwrthwyneb ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r dwyrain o ben gorllewinol y darn o'r ffordd sydd ar gau.

Bydd y gwaharddiadau dros dro, y codir arwyddion priodol yn eu cylch, yn dod i rym ar 11 Gorffennaf 2022 ac yn weithredol dros nos (20:00 o'r gloch tan 07:00 o'r gloch) tan fore 13 Gorffennaf 2022 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod yr amseroedd a'r dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan [Llywodraeth Cymru](https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd) ar <https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd>.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE A40 TRUNK ROAD (NEAR
SENNYBRIDGE, POWYS) (TEMPORARY
PROHIBITION OF VEHICLES, CYCLISTS
AND PEDESTRIANS) ORDER
2022**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to undertake works on or near the A40 trunk road near Sennybridge in the County of Powys.

The effect of the Order will be to temporarily prohibit all vehicles, cyclists and pedestrians from proceeding on the length of the A40 trunk road that extends from its junction with the unnamed lane leading to Crai in an easterly direction to its junction with the access road leading to Ynys-Yr-Wyddfa Farm.

The alternative route for westbound traffic from the eastern extent of the closure will be via the A40 eastbound to Brecon, A470 northbound to Builth Wells and then the A483 westbound to re-join the A40 at Llandoverly. Vice versa for eastbound traffic from the western extent of the closure.

The temporary prohibitions, which will be signed accordingly, will come into force on 11 July and operate overnight (20:00 hours to 07:00 hours) until the morning of the 13 July 2022 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the proposed Order is only expected to operate during the times and dates specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months as a contingency should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders>.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

J SADDLER
Transport
Welsh Government